Hyder mewn Cymwysterau ac yn y System Gymwysterau yng Nghymru

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mai 2019

www.yorkconsulting.co.uk

Dyddiad: **Mai 2019**

Awduron: **Philip Wilson, Michael Dodd, Louise Starks ac Einir Burrows**

York Consulting LLP
Smithfield House
92 North Street
LEEDS
LS2 7PN

Ffôn: 0113 2223545
Ffacs: 0113 2223540

E-bost: philip.wilson@yorkconsulting.co.uk

CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

1 Ym mis Ebrill 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru York Consulting i gynnal pedair blynedd a hanner o astudiaeth i archwilio barn rhanddeiliaid am gymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru, a'u hyder ynddynt.

2 Yr adroddiad hwn yw'r trydydd o dri cham yr astudiaeth. Cynhaliwyd y cam cyntaf rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2015, ac adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2016[1]. Cynhaliwyd yr ail gam rhwng mis Medi a Rhagfyr 2017, ac adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2018[2].

3 Mae gan sefydliad Cymwysterau Cymru ddau brif nod sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, sef:

- sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr
- hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru

4 Yn 2012, arweiniodd yr Adolygiad o Gymwysterau[3] at ddiwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch ar raddfa fawr dros dair blynedd rhwng 2015 a 2017. Mae manylion y newidiadau i'r cymwysterau ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru. Bu rheoli, deall ac addysgu'r manylebau cymwysterau newydd, a'u hasesu, yn nodwedd allweddol ar farn y rhanddeiliaid, ynghyd â chyfeiriad y teithio o hyn ymlaen tuag at gwricwlwm newydd fel y'i hamlinellwyd yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus[4].

5 Ers ei sefydlu yn 2015, mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi canolbwyntio'n agos ar y cymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir mewn ysgolion a cholegau ac ar raglenni dysgu seiliedig ar waith, a hynny drwy ei raglen o Adolygiadau Sector a chomisiynu wedyn gymwysterau galwedigaethol pwrpasol i Gymru. Mae'r rhaglen waith hon yn parhau.

6 Amcanion yr astudiaeth hon oedd:

- Archwilio lefelau'r hyder cyfredol yn y cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru ymhlith y rhanddeiliaid
- Nodi cryfderau allweddol Cymwysterau Cymru o ran hyrwyddo hyder mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru, a nodi unrhyw rwystrau a phroblemau sy'n rhwystro effeithiolrwydd

[1] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/confidence-in-qualifications-and-the-qualification-system-in-wales-2017/
[2] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/archwilio-hyder/
[3] Llywodraeth Cymru (2012) Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion. ISBN 978 0 7504 8267 7
[4] Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, ISBN 978 1 4734 3043 3.

- Nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ffydd y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru

7 Yn ystod y cyfweliadau, cyfeiriodd y cyfranogwyr at amrywiaeth helaeth o faterion. Mae'r adroddiad hwn felly'n cynnwys canfyddiadau sy'n berthnasol i sefydliad Cymwysterau Cymru ac i sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a CBAC.

Dull

8 Roedd y cam hwn o'r astudiaeth yn cynnwys 67 o gyfweliadau ansoddol ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys staff ysgol a chyrff cynrychiadol o'r sector ysgolion, rhanddeiliaid polisi a chynrychiadol, gan gynnwys y pedwar consortiwm rhanbarthol, darparwyr addysg bellach yng Nghymru, darparwyr addysg uwch (yng Nghymru a'r tu hwnt i Gymru), darparwyr dysgu seiliedig ar waith, cyrff dyfarnu a chynrychiolwyr cyflogwyr. Roedd y samplu ar gyfer yr ymchwil ansoddol yn fwriadus ar draws yr holl randdeiliaid perthnasol a nodwyd gan sefydliad Cymwysterau Cymru. Gwnaethpwyd gwaith maes rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ebrill 2019. Cynhyrchodd yr astudiaeth dystiolaeth o randdeiliaid ag amrywiol lefelau gwybodaeth, dealltwriaeth a diddordeb am yr amrywiaeth o faterion perthynol i gymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

9 Roedd cyfranogwyr yr ymchwil yn amrywio o ran lefelau eu dealltwriaeth o faterion gweithredol a pholisi cyfredol a newydd sy'n dod i'r amlwg yn y sector addysg. Roedd ambell farn a fynegwyd yn ffeithiol anghywir; mae safbwyntiau eraill, er eu bod yn gywir ar y pryd, wedi dyddio bellach oherwydd newidiadau polisi yn y cyfamser. Mae hyn yn benodol o wir ar gyfer barn ynghylch mesurau perfformiad ysgol, a oedd yn newid ar yr adeg yr oedd yr ymatebwyr yn rhoi eu barn, ac sydd wedi newid eto ers hynny. Roedd rhai ymatebwyr naill ai heb fod yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau neu'r ffordd y byddent yn cael eu gweithredu'n ymarferol. Lle mynegwyd anghywirdeb mewn barn, rydym wedi'i gadw yn yr adroddiad er mwyn cadw'n driw i'r iaith a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr; nid ydym wedi cynnwys esboniadau o bob un camddealltwriaeth.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Y System Gymwysterau

10 Cyfeiria'r system gymwysterau yn yr adroddiad hwn at gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ac at eu rheoleiddiwr – Cymwysterau Cymru.

11 Teimlwyd yn gyffredinol ymhlith y rhanddeiliaid fod y diwygiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i gymwysterau TGAU a Safon Uwch yn y system yn dechrau bwrw eu gwreiddiau, a'u bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

12 Cefnogwyd dull Cymreig unigryw o ddatblygu cymwysterau a'r system gymwysterau.

13 Nid oedd rhai rhanddeiliaid yn deall yn glir rolau a chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru, CBAC, Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol.

Cymwysterau Cymru

14 Ar y cyfan, roedd Cymwysterau Cymru wedi ennyn parch mawr, a chredwyd ei fod wedi magu enw da cadarn a thryloyw. Ystyriwyd ar y cyfan fod staff Cymwysterau Cymru yn ymatebol, yn fedrus iawn ac yn raenus.

15 Roedd y rhanddeiliaid yn canmol mecanweithiau cyfathrebu, hysbysu ac ymgynghori Cymwysterau Cymru ar y cyfan.

16 Cydnabu rhai o'r rhanddeiliaid rôl arwain Cymwysterau Cymru, gan wneud awgrymiadau ar gyfer ffocws y sefydliad yn y dyfodol. Amlygodd ymatebwyr polisi fod rôl Cymwysterau Cymru yn un bwysig a bod atebolrwydd cyhoeddus yn gliriach bellach nag ydoedd cyn sefydlu Cymwysterau Cymru.

17 Teimlai ambell ymatebwr fod Cymwysterau Cymru'n cael ei sbarduno gan wleidyddiaeth, ac nad oedd yn ysbrydoli hyder ymhlith y sector ysgolion.

18 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a soniodd am dryloywder ac annibyniaeth yn teimlo bod Cymwysterau Cymru wedi gwneud gwelliannau o'u cymharu â'r trefniadau blaenorol.

19 Teimlai rhai ymatebwyr ysgol a pholisi fod yr hyder yn sefydliad Cymwysterau Cymru wedi'i danseilio yn y gogledd oherwydd ei ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â'r terfynau gradd ar gyfer TGAU Iaith Saesneg yn ystod haf 2018 (lle gwelodd rhai ysgolion ostyngiad yn eu canlyniadau TGAU Iaith Saesneg).

CBAC

20 O'u holi am gyrff dyfarnu, cyfeiriodd llawer o sylwadau at weithgarwch CBAC, gan adlewyrchu ei statws, yn ôl pob tebyg, yn brif gyflenwr cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd.

21 Cydnabu'r rhanddeiliaid fod CBAC yn sefydliad parchus, ac roeddent yn hyderus yng ngallu CBAC i gynllunio cymwysterau cadarn a graenus.

22 Roedd athrawon ac ymatebwyr polisi o'r farn y cyfyngwyd ar ysgolion am nad oedd ganddynt ddewis o gorff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Derbyniodd rhai fod hyn yn anochel wrth gael cymwysterau sy'n benodol Gymreig, ond roedd eraill yn anfodlon ar y diffyg dewis.

23 Cafwyd amrywiaeth barn helaeth am y cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid a CBAC. Roedd rhai'n gadarnhaol iawn, ac eraill yn feirniadol dros ben.

24 Roedd y sylwadau cadarnhaol yn berthynol i ansawdd uchel y swyddogion pwnc a'u parodrwydd i wrando; ymatebion cyflym a chywir i ymholiadau gan staff CBAC; ac ymdrin ag apeliadau.

25 Roedd y rheini a fu'n beirniadu'r cyfathrebu â CBAC yn amlygu: ansawdd isel ac aneffeithiolrwydd – er enghraifft, y gweminarau a ddefnyddiwyd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus – a recordiadau briffiau ôl-arholiad.

26 Teimlwyd bod CBAC wedi dioddef niwed i'w enw da oherwydd ei ymateb i bryderon a godwyd gan ysgolion yn y gogledd am y terfynau gradd ar gyfer TGAU Iaith Saesneg yn ystod haf 2018 (lle gwelodd rhai ysgolion ostyngiad yn eu canlyniadau TGAU Iaith Saesneg). Teimlai'r ymatebwyr y bu CBAC yn anfodlon gwrando ar yr achos a wnaed gan ysgolion, a oedd wedi effeithio, yn eu barn hwy, ar ganlyniadau llawer o ddisgyblion.

27 Roedd y risgiau a'r pryderon allweddol a godwyd gan y rhanddeiliaid mewn perthynas â gwaith CBAC yn ymdrin ag: adnoddau a chymorth, dealltwriaeth am rôl CBAC, a gallu'r staff i ymateb i ymholiadau a cheisiadau.

Polisi ehangach

28 Roedd ymdeimlad cyffredinol o rwystredigaeth ymhlith rhai ymatebwyr ysgol fod y polisi mewn perthynas â'r system gymwysterau yn destun newid parhaus.

29 Codwyd materion amrywiol a oedd yn cwestiynu a allai'r myfyrwyr gwblhau cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr un gwastad â'r Saesneg.

30 Teimlai'r rheini a hoffai weld mwy o gyfle cyfartal ar draws yr ystod allu fod myfyrwyr llai galluog o dan anfantais yn sgil y newidiadau diweddar mewn cynlluniau cymwysterau a pholisi – er enghraifft, am fod arholiadau'n cynnwys mwy o gwestiynau hirach a llai o waith cwrs.

31 Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid wedi deall y broses ddiwygio'n dda. Amrywiai'r ddealltwriaeth hon ymhlith rhanddeiliaid polisi, addysg bellach ac ysgolion. Roedd rhai o'r farn fod cyflymder y diwygio wedi cyfyngu ar yr amser a oedd ar gael i ysgolion ac athrawon addasu. Teimlai eraill fod y diwygio wedi cymryd gormod o amser. Teimlai'r ddau grŵp mai'r canlyniad oedd gosod baich trwm ar athrawon.

32 O ran cymwysterau newydd, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am y cydbwysedd rhwng pynciau craidd a di-graidd, ac roeddent yn anfodlon fod rhai manylebau TGAU yn "eithaf llawn" o ran cynnwys.

Effaith PISA ar asesu

33 Yn ôl rhai ymatebwyr polisi, roedd mwyafrif yr ysgolion wedi addasu eu haddysgu'n briodol mewn ymateb i'r cwestiynau 'math PISA' a welwyd yn y manylebau TGAU newydd.

34 Roedd rhai ymatebwyr ysgol yn hoffi'r cwestiynau datrys problemau math PISA mewn TGAU, a gafodd groeso ar y cyfan.

35 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr ysgol yn beirniadu system gymwysterau a pholisi sydd, yn eu barn nhw, wedi'i sbarduno gan symud Cymru i fyny'r sgoriau PISA. Ni theimlai'r ymatebwyr hyn y dylai hynny fod y flaenoriaeth i athrawon.

Perfformiad ysgol

36 Codwyd pryderon gan ymatebwyr polisi a staff ysgol fod y system gymwysterau gyfredol (a'i chynnwys cynyddol, arholiadau caletach a chwestiynau math PISA) yn annog athrawon i 'addysgu i'r prawf' ar draul cwricwlwm ehangach.

Capasiti a gallu

37 Codwyd nifer o faterion ynghylch y capasiti a'r gallu yn y system addysg a dysgu, ac effaith y diwygiadau, gan gynnwys: yr angen i'r hyfforddiant a gaiff athrawon newydd gymhwyso i ddal i fyny â'r newidiadau i'r cymwysterau; y teimlad fod datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon yn annigonol, yn enwedig mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith; a'r pryderon am symudiad trawsffiniol athrawon yn dod i mewn i Gymru.

HYDER MEWN CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU

38 Cadarnhaodd llawer o'r rhanddeiliaid eu bod o'r farn gyffredinol fod cymwysterau yng Nghymru yn 'addas at y diben'.

39 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau a wnaed i gymwysterau TGAU a Safon Uwch dros y tair blynedd ddiwethaf o ran 'codi'r safon' yn y pynciau craidd ac ailgydbwyso'r pwyslais rhwng gwaith cwrs ac arholiadau. Roedd lefelau uchel o hyder mewn TGAU a Safon Uwch, er bod y rhanddeiliaid wedi mynegi rhai pryderon penodol a ddisgrifir isod.

Cymwysterau TGAU

40 Roedd cymwysterau TGAU diwygiedig wedi'u gwreiddio'n effeithiol yn y cwricwlwm yn ôl y rhan fwyaf o ymatebwyr. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r manylrwydd ychwanegol a gyflwynwyd drwy'r cymwysterau diwygiedig.

41 Credwyd bod disgyblion llai academaidd yn benodol yn cael TGAU arholiadau'n fwy heriol ac y bydd penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i beidio â gadael i gymwysterau galwedigaethol amgen gyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol (e.e. BTEC Gwyddoniaeth) yn rhoi rhai dysgwyr dan anfantais efallai.

42 Roedd ychydig o ddryswch a rhwystredigaeth ynglŷn â chyngor Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i fesurau perfformiad ysgol yn gysylltiedig ag ymgeisio'n gynnar am gymwysterau TGAU yn 2017/18 yn arwain at anghysondeb dull ar draws y rhanbarthau.

43 Roedd gwahaniaeth barn ymhlith ysgolion am bolisi ymgeisio cynnar y llywodraeth, yn gysylltiedig â seilio mesurau perfformiad ysgol ar sefyll arholiadau am y tro cyntaf. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi hyn, ac eraill yn teimlo ei bod yn rhesymol i fyfyrwyr a wnaeth wallau annodweddiadol ailsefyll o leiaf unwaith, gyda'r gorau o'r ddwy radd yn cyfrif at fesurau perfformiad ysgol.

44 Codwyd rhai materion mewn perthynas ag asesu ac arholiadau yn ymdrin â dangosyddion perfformiad ysgol, amserlennu arholiadau, dull asesu, ymgeisio mewn colegau addysg bellach, a'r adolygiad o derfynau gradd TGAU Iaith Saesneg.

45 Mewn sylwadau cyffredinol, nododd rhai rhanddeiliaid nad allai Cymwysterau Cymru a CBAC fod wedi gwneud mwy i roi dulliau diogelu ar waith wrth gyflwyno cymwysterau newydd, nac i sicrhau cysondeb a chymaroldeb y graddau a ddyfarnir o'r naill flwyddyn i'r llall.

46 Ar y cyfan, ystyriwyd bod athrawon, ym marn ymatebwyr polisi, yn fwyfwy hyderus am addysgu'r cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau TGAU, ond bod llai o hyder yn y ffordd yr oedd cymwysterau'n cael eu harholi.

47 Cafwyd adborth helaeth am gymwysterau TGAU gwyddoniaeth newydd. Teimlai rhai ymatebwyr fod y newidiadau diweddar yn gadarnhaol, ond roedd ymatebwyr eraill yn fwy beirniadol, gan nodi'r meysydd canlynol yn bryderon: natur lafurus y cymwysterau a'r ffaith fod y cymwysterau TGAU mewn Gwyddoniaeth yn cael eu cyfrif mewn mesurau perfformiad ysgol ac felly'n cymell ysgolion i beidio â chynnig tair gwyddoniaeth ar wahân. Teimlai'r rhanddeiliaid ysgol fod y cyd-destun Cymreig wedi'i ymgorffori'n effeithiol yn y cwricwlwm gwyddoniaeth.

48 Cafwyd cefnogaeth eang ymhlith athrawon i'r cymwysterau iaith a llenyddiaeth Saesneg diwygiedig. Codwyd rhai materion mewn perthynas â'r ffocws newydd ar sgiliau, tynnu Llenyddiaeth Saesneg oddi ar Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio 2018, a diffyg paratoi digonol i'r athrawon cyn y fanyleb newydd.

49 Cafwyd cefnogaeth i'r diwygiadau i gymhwyster TGAU Iaith Gymraeg. Roedd y mater allweddol ynghylch Iaith Gymraeg yn berthnasol i benderfyniadau ymgeisio ysgol rhwng y ddau gymhwyster yn ymdrin â'r Gymraeg yn famiaith ac yn ail iaith. Ar hyn o bryd, ni chaiff myfyrwyr astudio'r cymhwyster ail iaith os ydynt wedi dilyn ffrwd addysg cyfrwng Cymraeg hyd at ddiwedd CA3. Credai rhai ymatebwyr (a oedd yn ymwybodol o'r gwaharddiad neu beidio) y gallai myfyrwyr gwannach, yn y dyfodol, fod yn fwy tebygol o gael eu gosod yn y cymhwyster ail iaith er mwyn cael gwell gradd, er bod ganddynt y gallu efallai i sicrhau'r cymhwyster mamiaith mwy heriol.

50 Roedd TGAU Mathemateg Rhifedd yn cael ei gwreiddio yn y cwricwlwm, gyda llai o bryderon am y cymhwyster ei hun neu am gyflenwi'r cymhwyster. Bu'r ymatebwyr yn cyfeirio at nifer o bethau cadarnhaol, fel cydnabod pwysigrwydd mathemateg yn y Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio a gwell cyd-destun Cymreig. Fodd bynnag, cafwyd pryderon am ofynion llythrennedd, niferoedd gormodol o arholiadau mathemateg, cydbwyso'r disgwyliadau rhwng haenau sylfaen a chanolradd, a'r her barhaus o recriwtio athrawon mathemateg i'r proffesiwn.

Safon Uwch

51 Roedd teimlad cyffredinol ymhlith y rhan fwyaf o randdeiliaid fod y cymwysterau Safon Uwch yn gweithio'n dda. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr ysgol eu hyder yn y gefnogaeth i'r dull modiwlaidd UG/U2, a oedd yn gweithio'n dda i fyfyrwyr, yn eu barn hwy.

52 Nododd rhanddeiliaid ysgol nad oedd eto'n glir pa effeithiau y byddai newidiadau i TGAU yn eu cael ar barodrwydd disgyblion i lwyddo mewn cymwysterau Safon Uwch.

53 Prin oedd yr adborth penodol i bwnc. Ar gyfer Safon Uwch gwyddoniaeth, roedd cefnogaeth i elfennau ymarferol gyfrannu tuag at y radd.

Adnoddau

54 Roedd mater adnoddau'n canolbwyntio ar gael adnoddau addysgu a deunyddiau wedi'u cyfieithu ar gael mewn pryd. Cydnabuwyd bod cydweithio ar lefel ranbarthol wedi helpu, ond roedd teimlad cyffredinol yn parhau bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg dan anfantais ers symud i gymwysterau a gynlluniwyd i Gymru. Roedd pryderon am barodrwydd cyhoeddwyr i ddarparu ar gyfer gofynion penodol y farchnad fechan yng Nghymru.

Bagloriaeth Cymru

55 Ni chodwyd cynifer o faterion am Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau (SCC) o gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan awgrymu bod y cymhwyster wedi bwrw'i wreiddiau. Sylwodd llawer o'r rhanddeiliaid ar newid mewn safonau, gyda'r addysgu a'r dysgu'n gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi agweddau fel meddwl beirniadol, sgiliau at fywyd go iawn, a chymorth i symud ymlaen o'r lefelau is i Lefel 3.

56 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi Bagloriaeth Cymru a'r SCC. Ar Lefel 2, croesawyd y ffaith fod y dystysgrif yn gallu cyfrif tuag at Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio ysgolion. Ar Lefel 3, roedd rhywfaint o gefnogaeth rymus i'r SCC, er bod ambell un hefyd yn ei beirniadu'n gras.

57 Roedd rhai ymatebwyr ysgol yn argyhoeddedig fod y profiad o gael yr SCC Uwch wedi helpu eu disgyblion i sicrhau lleoedd mewn prifysgolion da y buasent efallai'n cael trafferth cael lle ynddynt fel arall. Roedd ymatebwyr ysgol yn credu bod y ffaith fod 'craidd' Bagloriaeth Cymru wedi'i ddisodli bellach gan yr SCC, sef cymhwyster annibynnol wedi'i raddio, yn ddatblygiad da ac yn fodd i ymgeiswyr cryfion arddangos lefel uwch o sgiliau.

58 Roedd y farn fwy beirniadol yn amrywio o addysgwyr a anghytunai fod yr SCC yn academaidd werthfawr, i rai a gredai ei bod yn rhy academaidd, i eraill a deimlai nad oedd myfyrwyr yn ei gwerthfawrogi.

59 Yn rhan o'r ymchwil, archwiliwyd barn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r tu hwnt i Gymru. Roedd yr holl sefydliadau hyn y siaradom â hwy y tu mewn a'r tu allan i Gymru yn ymwybodol o Fagloriaeth Cymru, ond nid oedd pawb yn ei gwerthfawrogi yn yr un modd.

60 Roedd canfyddiadau dargyfeiriol ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sut oedd sefydliadau addysg uwch yn ystyried yr SCC yn y broses dderbyn ac i ba raddau roedd y sefydliadau hyn yn credu bod y cymhwyster yn werthfawr wrth ystyried darpar fyfyrwyr. Credai rhai nad oedd yn werthfawr iawn ym mhroses ymgeisio

UCAS, ond credai eraill fod sefydliadau addysg uwch yn ei gwerthfawrogi yn rhan o'r broses.

Cymwysterau galwedigaethol

61 Roedd y meysydd allweddol a grybwyllwyd gan randdeiliaid ynghylch cymwysterau galwedigaethol yn berthynol i adolygiadau sector, datblygiad a gwerth cymwysterau galwedigaethol, a rhai safbwyntiau polisi.

62 Croesawodd y rhanddeiliaid yr adolygiadau sector, a rhai ohonynt yn cyfeirio at yr angen am well cymwysterau, ond mynegwyd pryderon am y cynnydd araf, yn eu barn hwy, er eu bod yn cydnabod bod angen cael y newidiadau'n iawn.

63 Mynegodd y rhanddeiliaid amrywiaeth barn am bwysigrwydd cymwysterau galwedigaethol i ddisgyblion llai academaidd-gyfeiriedig, am gymwysterau cyrff dyfarnu penodol, a'r cydbwysedd rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

64 Codwyd pwyntiau cysylltiedig â pholisi am werth canfyddedig safonau galwedigaethol cenedlaethol, pwysigrwydd monitro dyfodiad Lefelau T yn Lloegr, a gwerth cymwysterau galwedigaethol yn y Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio.

Prentisiaethau

65 Roedd cefnogaeth gyffredinol o hyd i fframweithiau prentisiaeth Cymru, yn enwedig o'u gwrthgyferbynnu â datblygiad safonau prentisiaeth yn Lloegr a'r diffyg cymwysterau mewn rhai prentisiaethau newydd yn Lloegr.

66 Mynegodd yr ymatebwyr bryderon am argaeledd fframweithiau ar gyfer meysydd galwedigaethol lle'r oedd y fframweithiau ar fin dod i ben ac am anhawster cyflawni'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn rhan o'r fframwaith prentisiaeth o fewn y terfynau amser, yn enwedig i fyfyrwyr mewn uned cyfeirio disgyblion ac i ddysgwyr lefel is.

67 Teimlai'r rhanddeiliaid nad oedd pobl ifanc a rhieni wedi'u hargyhoeddi o hyd am deilyngdod prentisiaeth, yn enwedig lle'r oedd ysgolion yn annog pobl ifanc i ddilyn llwybrau academaidd.

Datblygiad proffesiynol i staff dysgu seiliedig ar waith

68 Amlygodd y rhanddeiliaid fod angen buddsoddi yn y gweithlu dysgu seiliedig ar waith er mwyn iddynt allu cyflenwi cymwysterau galwedigaethol. Cydnabuont fod newidiadau cadarnhaol wedi digwydd, ond bod angen gwneud mwy.

CASGLIADAU

Hyder yn y System Gymwysterau

69 Cydnabuwyd bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cryf sy'n darparu arweinyddiaeth ac eglurder ar reoleiddio a chymwysterau. Ystyriwyd ei fod wedi datblygu cysylltiadau da â'r sector ysgolion, cynrychiolwyr cyflogwyr a chyrff dyfarnu. Cafodd ei ganmol am ei ymrwymiad i ymgynghori, penderfynu a rheoleiddio agored a thryloyw.

70 Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan gan randdeiliaid am y mecanweithiau cyfathrebu a ddefnyddia Cymwysterau Cymru.

71 Fodd bynnag, roedd rhywfaint o feirniadaeth yn amlwg, yn enwedig mewn perthynas â'r newidiadau i derfynau gradd TGAU Iaith Saesneg, y credwyd eu bod wedi effeithio ar ddisgyblion yn y gogledd (lle gwelodd rhai ysgolion ostyngiad yn eu canlyniadau TGAU Iaith Saesneg). Roedd tystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth am rolau Cymwysterau Cymru a CBAC ar draws grwpiau rhanddeiliaid. Roedd rhanddeiliaid o'r farn y gellid bod wedi dangos mwy o sensitifrwydd ar y mater penodol hwn.

72 Roedd rhanddeiliaid polisi o'r farn fod CBAC yn unig yn fodlon datblygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch oherwydd bod marchnad Cymru'n rhy fach i ddenu cyrff dyfarnu eraill. Roedd rhai rhanddeiliaid yn hoff o syniad cymwysterau 'a wnaed yng Nghymru', ond mae'n debyg nad oeddent yn hoffi un o ganlyniadau hynny.

73 Roedd rhai rhanddeiliaid yn gadarnhaol am staff CBAC, perfformiad y sefydliad a'r cymorth a gawsant. Roedd rhanddeiliaid eraill yn poeni o hyd mai CBAC oedd yr unig gorff dyfarnu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Teimlai rhai ymatebwyr fod diffyg cystadleuaeth a gostyngiad yn ansawdd y gwasanaeth ymhlith canlyniadau negyddol hyn. Nodwyd bod gwell cyfathrebu yn flaenoriaeth bwysig o hyn ymlaen i CBAC.

74 Mynegwyd rhai pryderon ychwanegol o ran gallu CBAC i ymateb i ofynion system gymwysterau Cymru, gydag enghreifftiau o adnoddau Cymraeg hwyr a diffyg papurau sampl, yn absenoldeb papurau blaenorol, o ystyried y cymwysterau diwygiedig. Roedd pryderon am effeithiolrwydd y mecanweithiau ar-lein ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a briffiau ôl-arholiad.

75 Roedd rhai pryderon ynghylch perfformiad ysgol ac arferion addysgu. Er gwaethaf cefnogaeth gyffredinol i'r cwestiynau math PISA, dywedodd rhai ymatebwyr fod athrawon ysgol yn 'addysgu i'r prawf', yn enwedig ar gyfer dysgwyr lefel is, oherwydd maint y cynnwys a'r pwysau i gyflawni.

76 Roedd llawer o randdeiliaid yn deall yr heriau sy'n wynebu Cymwysterau Cymru, yn benodol mewn perthynas â chyflenwi'r newidiadau cymhwyster yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru iddynt a'r penderfyniadau polisi mewn perthynas â newidiadau cwricwlwm a pherfformiad ysgol. Derbyniwyd bod angen i Gymru

gadw i fyny â'r newidiadau sy'n digwydd yn Lloegr ac ymateb yn briodol i sicrhau cywerthedd a chydraddoldeb bri.

77 Roedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol ar y cyfan o lawer o'r newidiadau cwricwlwm ysgol eang ar y gweill at y dyfodol. Roedd rhywfaint o bryder ymhlith ymatebwyr ysgol am gyfres newydd o ddiwygiadau a fydd yn effeithio ar addysgu pob dydd ac efallai'n rhoi mwy o bwysau ar athrawon.

78 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r dull fesul sector o adolygu cymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, roedd pryderon fod y datblygiadau'n araf – er enghraifft, cymwysterau iechyd a gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant. Roedd darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac ymatebwyr polisi o'r farn fod cyrff dyfarnu'n ystyried bod Cymru'n farchnad ddibwys a gostyngol – gan godi pryderon am ddiffyg cystadleuaeth a chyfrannu syniadau newydd. Roedd galw i sefydliad Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru sicrhau nad oes unrhyw fylchau o ran cymwysterau galwedigaethol i fynd i'r afael â pholisi llywodraeth ac i ddarparu llwybrau gyrfa priodol i bobl ifanc.

79 Roedd amrywiaeth helaeth o safbwyntiau am bwysigrwydd cymwysterau galwedigaethol i ddisgyblion llai academaidd-gyfeiriedig, am gymwysterau cyrff dyfarnu penodol, ac am yr anghydbwysedd parhaus rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

Hyder mewn Cymwysterau

80 Cadwodd cymwysterau TGAU a Safon Uwch gefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru. Dywedodd y rhanddeiliaid eu bod yn arwydd dibynadwy o wybodaeth a sgiliau disgybl, a'i ymroddiad i ddysgu.

81 Cytunodd llawer o randdeiliaid fod angen y diwygiadau cymhwyster. Credwyd bod y diwygiadau wedi helpu i sicrhau bod cymwysterau'n darparu portffolio cryf o ddysgu ac asesu i bobl ifanc yng Nghymru. Roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr wrth ystyried a oedd y diwygiadau wedi cymryd rhy hir neu wedi'u gweithredu'n rhy gyflym, ond roeddent yn cytuno mai'r canlyniad oedd baich ychwanegol ar athrawon.

82 Cydnabuwyd bod safonau TGAU wedi'u codi oherwydd y diwygiadau, ond roedd rhai pryderon fod dysgwyr llai abl bellach yn ei chael yn anodd pasio. Roedd llawer o randdeiliaid yn cydnabod yr alinio â chwestiynau math PISA, a'r rhan fwyaf yn cefnogi hyn, er bod eraill yn llai argyhoeddedig.

83 Roedd ambell ymatebwr ysgol yn pryderu am fod cymaint o gynnwys mewn rhai cymwysterau TGAU, ond teimlwyd bod hyder mewn addysgu wedi gwella dros amser.

84 Roedd llawer o'r rhanddeiliaid yn cefnogi'r symud at asesu crynodol i gynyddu manwl gywirdeb, ond yn teimlo bod dysgwyr lefel is nad oeddent yn gallu perfformio cystal mewn arholiadau wedi'u gosod dan anfantais wrth waredu rhai cymwysterau amgen (e.e. BTEC Gwyddoniaeth) o fesurau perfformiad ysgol.

85 Cydnabu'r rhanddeiliaid y cyd-destun Cymreig cynyddol mewn cymwysterau. Fodd bynnag, roedd siom yn yr oediadau ar gyfer rhai adnoddau Cymraeg.

86 Roedd y rhanddeiliaid o'r farn fod ymwybyddiaeth am y newidiadau i gymwysterau ymhlith rhieni a chyflogwyr yn weddol isel.

87 Cefnogir o hyd y penderfyniad i gadw'r graddau llythyren mewn cymwysterau TGAU ac i gadw'r dull modiwlaidd mewn cymwysterau Safon Uwch. Roedd cymwysterau Cymru'n cael eu parchu gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a sefydliadau addysg uwch y tu hwnt i Gymru.

88 Mae Bagloriaeth Cymru'n hollti barn o hyd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn gefnogol iawn, gan gydnabod buddion y sgiliau ehangach a enillir ar Lefel 2 a Lefel 3. Fodd bynnag, roedd eraill yn cwestiynu ei gwerth mewn cwricwlwm sy'n culhau. Roedd canfyddiadau gwahanol iawn am y ffordd y mae Bagloriaeth Cymru a'r SCC Uwch yn cael eu hystyried mewn sefydliadau addysg uwch a pholisïau amlwg o wahanol mewn sefydliadau addysg uwch o ran sut maent yn ystyried ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr gyda Bagloriaeth Cymru.

89 Roedd mater adnoddau'n canolbwyntio ar gael adnoddau addysgu a deunyddiau wedi'u cyfieithu ar gael mewn pryd. Cydnabuwyd bod cydweithio ar lefel ranbarthol wedi helpu, ond roedd teimlad cyffredinol o hyd fod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais ers symud at gymwysterau Cymru yn unig.

90 Y meysydd allweddol a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cymwysterau galwedigaethol oedd adolygiadau sector (a werthfawrogir ond y credir eu bod yn araf), datblygiad a gwerth cymwysterau galwedigaethol (gan gynnwys cydraddoldeb bri â chymwysterau cyffredinol), a rhai safbwyntiau polisi (gan gynnwys gwerth yn y system perfformiad ysgol).

91 Roedd cefnogaeth gyffredinol o hyd i fframweithiau prentisiaeth Cymru, yn enwedig o'u cymharu â datblygiad safonau prentisiaeth yn Lloegr a'r ffaith nad yw rhai prentisiaethau newydd yn Lloegr yn cynnwys cymwysterau.

92 Amlygodd y rhanddeiliaid fod angen buddsoddi yn y gweithlu dysgu seiliedig ar waith fel eu bod yn gallu cyflenwi'r cymwysterau galwedigaethol. Cydnabuwyd bod mwy wedi'i osod ar waith yn ddiweddar, ond bod angen gwneud mwy.

Sylwadau i Gloi

93 Ar draws tri cham y gwaith maes ers 2015 cafwyd tystiolaeth glir o system gymwysterau Gymreig arbennig yn ymsefydlu ac yn cael ei hystyried yn gadarnhaol gan randdeiliaid.

94 Ystyriwyd Cymwysterau Cymru yn gyson o gadarnhaol ar draws tri cham y gwaith maes, er gwaethaf ychydig o feirniadaeth mewn meysydd penodol, fel y terfyn gradd a osodwyd ar gyfer y cymhwyster Iaith Saesneg yn 2018, a heriwyd gan rai rhanddeiliaid. Yn yr un modd, parchwyd CBAC a chydnabuwyd bod ganddo'r arbenigedd angenrheidiol i fodloni ei gyfarwyddyd, er bod pryderon yn parhau am ganlyniadau'r ffaith mai CBAC yw'r prif gyflenwr cymwysterau cyffredinol.

Lleisiwyd y farn hon, mewn perthynas â swyddogaeth CBAC fel y prif gyflenwr, yn gyson ar draws tri cham yr ymchwil.

95 Ceir rhai pynciau llosg o hyd, a godwyd yn gyson yn ystod tri cham y gwaith maes ac sydd wedi hollti barn, fel Bagloriaeth Cymru.

96 Mae Cymwysterau Cymru a CBAC yn rhoi blaenoriaeth barhaus i gyfathrebu a dealltwriaeth gyhoeddus o rôl gwahanol gyrff. Roedd hyn yn gryfach yn ystod dau gam cyntaf y gwaith maes, ac er bod cefnogaeth gref yn parhau ynghylch cyfathrebu, beirniadwyd rhai meysydd penodol yn y trydydd cam hwn o waith maes.

97 Er gwaethaf rhywfaint o wahaniaeth barn penodol, ar y cyfan roedd cefnogaeth i'r amrywiaeth o gymwysterau a'r diwygiadau diweddar iddynt. Roedd cefnogaeth i'r cwricwlwm ysgol newydd ond hefyd ychydig o ofn am yr effaith ar ysgolion, athrawon ac, yn y pen draw, disgyblion.

98 Y meysydd blaenoriaeth i'w hystyried o hyn ymlaen yw:

- Dealltwriaeth y cyhoedd a'r rhanddeiliaid o'r system gymwysterau a rolau sefydliadau allweddol
- Rheoli unrhyw newidiadau i gymwysterau o ganlyniad i'r cwricwlwm newydd i Gymru sydd ar y gweill
- Strategaeth gyfathrebu, yn enwedig o ran CBAC ond gan gynnwys Cymwysterau Cymru
- Rheoli newid yn well ar gyfer cyflwyno cymwysterau a ddatblygwyd o ganlyniad i adolygiadau sector
- Anelu at gynyddu argaeledd adnoddau Cymraeg i gefnogi'r cymwysterau